# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 2

RHEOLAETHU GWAITH SY'N EFFEITHIO AR ADEILADAU RHESTREDIG

*Awdurdodi gwaith*

PROSPECTIVE

### 88 Gofyniad i waith gael ei awdurdodi

(1) Ni chaiff person gyflawni gwaith y mae'r adran hon yn gymwys iddo, neu beri i waith o'r fath gael ei gyflawni, oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi o dan adran 89.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) i waith ar gyfer addasu neu estyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;

(b) i waith ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig.

(3) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys—

(a) i waith mewn perthynas ag adeilad sy'n heneb gofrestredig (ond gweler adran 11);

(b) i waith mewn perthynas ag adeilad crefyddol esempt;

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 88. (See end of Document for details)*

(c) i waith ar gyfer dymchwel adeilad sydd ar gau ar gyfer addoli rheolaidd gan y cyhoedd, neu ran o adeilad o'r fath, yn unol â darpariaeth a wneir o dan Ran 6 o Fesur Cenhadaeth a Bugeiliol 2011 (Rhif 3) gan gynllun bugeiliol adeiladau eglwysi neu gynllun bugeiliol (gwaredu adeiladau eglwysi);

(d) i waith a gyflawnir gan neu ar ran y Goron o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (a) i (d) o adran 117(4) (gwaith brys).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 88 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 88.